nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Safonau dychwelyd i ymarfer

Cyhoeddiad gwreiddiol:
**20 Mai 2019**

## Contents


Safonau dychwelyd i ymarfer 2

Oriau Ymarfer 3


Cafodd y safonau hyn eu cymeradwyo gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar 27 Mawrth 2019. Cawsant eu hailgynllunio ym mis Mawrth 2024

# Safonau dychwelyd i ymarfer

Mae ein safonau aildderbyn ac ailddilysu yn nodi isafswm nifer yr oriau ymarfer y mae'n rhaid i nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio eu cwblhau er mwyn aros ar ein cofrestr neu ail-ymuno â hi. Mae'n rhaid i bobl nad ydynt yn cyrraedd y gofynion hyn o ran oriau ymarfer sy'n dymuno aros ar ein cofrestr neu ail-ymuno â hi gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus, neu lwyddo ym mhrawf cymhwysedd yr NMC.

## 1. Safonau dychwelyd i ymarfer[1]

Er mwyn bod yn gymwys i gael eich ailychwanegu at y gofrestr, mae'n rhaid i chi fod wedi gwneud y canlynol:

- cwblhau 750 awr o ymarfer yn ystod y pum mlynedd flaenorol, neu
- gwblhau 450 awr o ymarfer yn ystod y tair blynedd flaenorol, neu
- gwblhau'r nifer cyfwerth o oriau o ymarfer cofrestredig tra oeddech chi wedi cofrestru â'r rheoleiddiwr perthnasol dramor, neu
- cwblhau cymhwyster cyn-cofrestru cymeradwy yn y DU o fewn pum mlynedd, neu
- gwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer sydd wedi'i chymeradwyo gan NMC o fewn pum mlynedd, neu • basio prawf cymhwysedd NMC o fewn pum mlynedd.

## 2. Safonau ailddilysu

**I'r rheini nad ydynt wedi cwblhau'r lleiafswm oriau ymarfer**

Os ydych chi wedi ymarfer am lai o oriau na'r nifer sy'n ofynnol yn ystod y tair blynedd ers i'ch cofrestriad gael ei adnewyddu ddiwethaf (neu ers i chi ymuno â'r gofrestr) bydd rhaid i chi wneud y canlynol cyn dyddiad eich cais am adnewyddu'ch cofrestriad:

- cwblhau rhaglen dychwelyd i ymarfer sydd wedi'i chymeradwyo gan NMC, neu
- basio prawf cymhwysedd NMC.

---

**1** Pennir y safonau hyn o dan Erthygl 19(3) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y Gorchymyn) Rheol 3(4)(a) o'r Rheolau Addysg, Cofrestru ac Apeliadau Cofrestru 2004.

# Oriau Ymarfer

| Cofrestriad | Cyfanswm yr oriau ymarfer gofynnol angenrheidiol |
|---|---|
| Nyrs | 450 |
| Bydwraig | 450 |
| Nyrs a SCHPN (Nyrs/SCPHN) | 450 |
| Bydwraig a SCHPN (Bydwraig/SCPHN) | 450 |
| Nyrs a bydwraig (gan gynnwys Nyrs/SCHPN a Bydwraig/SCHPN) | 900 (i gynnwys 450 ar gyfer nyrsio, 450 ar gyfer bydwreigiaeth) |
| Cydymaith nyrsio | 450 |
| Cydymaith nyrsio a nyrs | 900 (i gynnwys 450 ar gyfer nyrsio, 450 ar gyfer cydymaith nyrsio) |
| Cydymaith nyrsio a Bydwraig | 900 (i gynnwys 450 ar gyfer cydymaith nyrsio a 450 ar gyfer bydwreigiaeth) |
| Nyrs, bydwraig a chydymaith nyrsio | 1,350 350 (i gynnwys 450 ar gyfer nyrsio, 450 ar gyfer bydwreigiaeth a 450 ar gyfer cydymaith nyrsio) |

# Pwy ydym ni

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 808,000* o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
London W1B 1PZ
+44 20 7333 9333
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth i Loegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon
Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

*Data a gasglwyd o 30 Medi 2023